Hawdd ei ddeall

# Ein cynllun i helpu mwy o bobl gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru

## Y pethau wnaethon ni o 2019 i 2020



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Stategol 2019-2020**'.

Medi 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os yw'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 20**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl C**yngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**Gwefan**: www.arts.wales

**E-bost**: grants@arts.wales

**Ffôn**: 03301 242733

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........................................................1**

**Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn...................................................4**

Gwaith sy'n cael ei effeithio oherwydd y coronafeirws ...,..........6

**Y gwaith pwysig wnaethon ni yn 2019 – 2020.....................................8**

**Y pethau roedden ni'n dweud ein bod am eu gwneud yn well........13**

Beth sydd arnon ni angen ei wneud.............................................16

**Beth sydd arnon ni angen ei wneud nesaf?.........................................18**

**Geiriau anodd.............................................................................20**

# Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn




Fe ysgrifennon ni gynllun yn 2017 ynglŷn â helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru.



Mae hwn yn adroddiad am y gwaith wnaethon ni yn 2019 a 2020.



Rydyn ni'n credu bod y celfyddydau ar gyfer pawb.



Mae arnon ni eisiau gweithio gyda phobl o gefndiroedd **amrywiol** a thrin pawb yn gyfartal ac yn deg.

Mae pobl **amrywiol** yn bobl o bob gwahanol ddiwylliannau, medrau a ffyrdd o fyw.



Mae arnon ni eisiau gweithio gyda mwy o bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn ymwneud â deddf ynghylch trin pobl yn deg ac yn gyfartal. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:



Oed

Anabledd



Pwy maen nhw'n ei ffansïo neu'n ei garu



Disgwyl plentyn

Bod yn briod



Person Du, Asiaidd, neu o **Leiafrif Ethnig** (sydd weithiau'n cael ei alw'n **BAME**).

Mae **person o leiafrif ethnig** yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o wahanol hil.



Rydyn ni'n poeni bod rhai grwpiau o bobl ddim yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau â phobl eraill.



Er enghraifft, pobl sy'n anabl neu'n Ddu, yn Asiaidd neu'n berson o Leiafrif Ethnig.

## Gwaith sy'n cael ei effeithio oherwydd y coronafeirws



Roedd yn rhaid dod â'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau i ben o Fawrth 2020 oherwydd y coronafeirws.



Mae wedi effeithio ar les pobl a'r economi.



Pobl sydd â llai o arian, llai o addysg a phobl sy'n anabl yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf.

Roedd ymgyrchoedd fel **Mae Bywydau Du o Bwys** ac **Ni Chawn Ein Gwaredu** yn gwneud i ni feddwl sut i wneud pethau'n well i bawb.



Mae **Mae Bywydau Du o Bwys** wedi dangos i ni sut y mae rhai pobl yn cael eu trin yn annheg. A'r ffordd y mae'r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy'n Ddu, yn Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig.

Siaradai **Ni Chawn Ein Gwaredu** am y ffordd mae'r coronafeirws wedi effeithio ar artistiaid sy'n anabl.

A'r ffordd y mae pobl yn teimlo'n unig.

## Y gwaith pwysig wnaethon ni yn 2019 a 2020



Rydyn ni'n dal i gefnogi mudiadau a phobl i gymryd rhan yn y celfyddydau trwy brosiect sy'n cael ei alw'n **Camau Creadigol**.



Mae llawer o fudiadau sydd wedi gwneud yn dda ac roedden nhw'n gallu gwneud cais am nawdd oherwydd **Camau Creadigol**.



Cafodd pedwar o artistiaid sy'n anabl sydd wedi'i lleoli yng Nghymru nawdd gan y prosiect oedd yn cael ei alw'n **'Unlimited'**.



Fe weithion ni gydag **'Unlimited'** i ddechrau rhywbeth sy'n cael ei alw'n **'Unlimited Present'** mewn lleoliadau ar draws Cymru.



Mae **'Unlimited Present'** yn helpu artistiaid sy'n anabl i gyflwyno eu gwaith.



Mae hefyd yn rhoi cyfle i artisitiaid a chynulleidfaoedd sy'n anabl i gymryd rhan mewn sgyrsiau i wneud pethau'n well.




Rydyn ni'n dal i ddefnyddio ein **cerdyn 'Hynt'**. Mae **'Hynt'** yn helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fynd i ddigwyddiadau celfyddyd.



Mae llawer o bobl erbyn hyn yn aelodau o **'Hynt'**. Rydyn ni'n ceisio gweld allwn ni gael y cerdyn hwn ledled y DU.


Rydyn ni'n gweithio gyda **Chymdeithas Marchnata Celfyddydau (AMA)** i wneud eu cynulleidfa yn amrywiol trwy gynnig cefnogaeth i bobl.



Rydyn ni wedi cynnig cefnogaeth i bobl sy'n anabl neu sy'n Ddu, yn Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig i ddod yn aelod o **AMA**.




Cefnogodd ein rhaglen **Cydrannu** saith syniad newydd:



1. Mae clwb llyfrau sy'n cael ei alw'n **'Blind Bookworms'** sy'n cael ei redeg gan bobl ifainc sydd â **nam ar eu golwg**. Mae'r clwb llyfrau yn agored i bawb.

> Mae pobl sydd â **nam ar y golwg** yn meddwl pobl sy'n cael problemau â'u golwg.



2. Fe gefnogon ni gyngor Abertawe i gychwyn grŵp o Gynhyrchwyr Creadigol o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu amrywiol.



3. Cychwynnodd Jonny Cotsen, artist sy'n fyddar, grŵp celfyddydol i ddod â myfyrwyr, hyfforddwyr, artistiaid a phobl ifainc ar draws Cymru at ei gilydd.



4. Daeth Susan McGowen â grŵp at ei gilydd sy'n cael ei alw'n '**Mothers who Make**' ar gyfer artistiaid sy'n famau neu'n disgwyl babi.



5. Cynhaliodd ‘**Taking Flight**’ ddigwyddiad i siarad am ffordd o wneud perfformiadau yn hamddenol a **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio a chael rhywbeth ohono.



6. Mae grŵp ardal **Celfyddydau Gweledol ac Orielau ‘Engage’** yn gweithio ar wneud staff yn amrywiol.



7. Cafodd grŵp **Celfyddydau Ieuenctid** ddigwyddiadau i siarad am gynnig cefnogaeth a chynnwys pobl ifainc yn y celfyddydau.



Rhoddodd ein rhaglen **Noson Allan** gefnogaeth i bobl Dduon, pobl Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig i hyrwyddo digwyddiadau. Rhoddodd gyfle iddyn nhw gyflwyno eu gwaith.



Mae ein **rhaglen cARTrefu Cymru** wedi gweithio gyda phobl hŷn, pobl sy’n anabl a rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl i gymryd rhan yn y celfyddydau.



Mae ein rhaglen newydd sy’n cael ei alw’n **Llwybrau Creadigol** wedi gweithio i gynnig cefnogaeth i bobl dalentog sydd â llai o arian.



Rydyn ni'n gweithio i gychwyn rhaglen sy'n cael ei alw'n **Uchelgeisiau Diwylliannol (Cultural Ambitions)**. Bydd hon yn cynnig cefnogaeth ar gyfer pobl ifainc sy'n cael anawsterau mewn bywyd.



Mae ein gwefan, a lansiwyd yn Ebrill 2019, yn llawer mwy hygyrch.



Mae ein gwybodaeth yn hygyrch ar gyfer darllenwyr sgrîn a defnyddwyr **Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**.




Mae gennym ni ddogfennau hefyd i helpu pobl sy'n anabl neu sydd â nam ar eu golwg.



Fe lansion ni ein **hadolygiad o Bortffolio Celfyddydol Cymru** i wneud yn siŵr bod mwy o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn cymryd rhan.

# Y pethau roedden ni'n dweud ein bod am eu gwneud yn well



Roedden ni'n dweud y buasen ni'n gweithio i ddod â **chydraddoldeb** ac amrywioldeb i'r celfyddydau.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pawb yn deg.



Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i siarad am **Mae Bywydau Du o Bwys** ac **Ni Chawn ein Gwaredu**.



Fe rannon ni storïau ac astudiaethau achos ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol.



Dywedon ni y buasen ni'n cael mwy o staff yn y celfyddydau o gefndiroedd amrywiol.

**Rydyn ni'n gweithio i wneud i hyn ddigwydd trwy:**



- weld sut mae mudiadau eraill wedi gwneud newidiadau



- cael sgyrsiau gyda mudiadau fel Coleg Caerdydd a'r Fro and Sgil Cymru ynglŷn â **phrentisiaethau**

Mae **prentisiaethau** yn meddwl y gall pobl ddysgu tra byddan nhw'n gweithio er mwyn cael profiad. Ond efallai na fyddan nhw'n cael eu talu.



- gwaith ein rhaglen **Llwybrau Creadigol**.




Rydyn ni wedi newid ein ffurflenni cais a'n hysbysebion swyddi i annog pobl o gymunedau amrywiol i ymgeisio am swyddi.




Rhoddodd Portffolio Celfyddydol Cymru eu cynlluniau i ni ynghylch y ffordd y buasen nhw'n cael mwy o staff ac aelodau sydd â nodweddion gwarchodedig ar y bwrdd.



Caswon ni sgyrsiau gydag **Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr** ynghylch pethau y buasen nhw'n ei wneud i weithio gyda mwy o staff o gefndiroedd amrywiol.



**Beth ddywedodd ein grŵp monitro?**

Mae ein grŵp monitro yn cynnwys staff o'n mudiad a chynhorwyr o'r tu allan.

**Dywedon nhw:**




- Mae ein cynlluniau angen newid ychydig.



- Mae arno angen cynnwys newidiadau mewn celfyddydau a diwylliant a phethau newydd y mae arnon ni angen gweithio arnyn nhw.



- Mae arnon ni angen gweithio gyda mwy o staff o gefndiroedd amrywiol.



- Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol i gymryd rhan yn y celfyddydau.

# Beth sydd arnon ni angen ei wneud



Cael sgyrsiau ag artistiaid sy’n Ddu, Asiaidd, o Leiafrifoedd Ethnig neu’n anabl i wrando ar beth sydd ganddyn nhw i’w ddweud ynghylch byw a gweithio yng Nghymru.





Cael dyddiad newydd ar gyfer ein Cynhadledd Flynyddol a gafodd ei ganslo oherwydd y coronafeirws.



Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni siarad am bethau sy’n bwysig i ni fel cydraddoldeb ac amrywioldeb mewn celfyddyd.




Gwneud ein hadroddiad yn hygyrch ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Cael adborth gan bobl am ein hadroddiad.




Gwneud yn siŵr bod ein cynllun adfer ar ôl y coronafeirws yn cael ei ysgrifennu i drin pobl yn deg ac yn gyfartal.




Dechrau rôl swydd newydd yng Nghyngor y Celfyddydau i wneud newidiadau. Er mwyn i ni fedru gweithio mwy gyda staff o gefndiroedd amrywiol.



Gwneud ein grŵp monitro yn bwyllgor llawn o aelodau o Gyngor y Celfyddydau.

# Beth sydd arnon ni angen ie wneud nesaf?



Byddwn yn dal ati i weithio i gael staff ac aelodau ein byrddau o gefndiroedd amrywiol.




Byddwn yn chwilio am y ffordd orau o gasglu gwybodaeth am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.




Byddwn yn edrych ar gynlluniau wedi eu gwneud gan fudiadau rydyn ni'n eu noddi ar gyfer trin pobl yn deg ac yn gyfartal.



Byddwn yn edrych sut i wneud ein cyfarfodydd ar-lein yn well. A gwahodd pobl i gymryd rhan yn ein cyfarfodydd.

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

Byddwn yn gwneud newidiadau i'n rhaglen noddi trwy lotri i wneud yn siŵr ei fod yn deg ac yn gyfartal.



Byddwn yn gweithio gyda phobl sydd â medrau a gwybodaeth am ffyrdd o annog mudiadau a phobl amrywiol i wneud cais am nawdd.



Byddwn yn cefnogi pobl a mudiadau amrywiol i gael arian.



Byddwn yn chwilio am y ffordd orau o gefnogi artistiaid sydd â llai o arian.



Byddwn yn cynnig prentisiaethau i bobl o gefndiroedd amrywiol.



Byddwn yn dal ati gyda’r gwaith pwysig trwy raglenni sy’n gweithio’n dda.



Byddwn yn edrych pa bethau sy’n gweithio neu ddim yn gweithio trwy siarad â phobl a mudiadau rydyn ni’n gweithio â nhw.

# Geiriau anodd

### Amrywiol

Mae pobl amrywiol yn bobl o bob gwahanol ddiwylliannau, medrau a ffyrdd o fyw.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pawb yn deg.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio a chael rhywbeth ohono.

### Lleiafrif ethnig

Mae person o leiafrif ethnig yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o wahanol hil.

### Nam ar y golwg

Mae pobl sydd â nam ar y golwg yn meddwl pobl sy'n cael problemau â'u golwg.

### Nodweddion gwarchodedig

Mae nodwedddion gwarchodedig yn ymwneud â deddf ynghylch trin pobl yn deg ac yn gyfartal. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Person Du, Asiaidd, neu o Leiafrif Ethnig (sydd weithiau'n cael ei alw'n BAME).
- Pwy maen nhw'n ei ffansïo neu'n ei garu
- Disgwyl plentyn
- Bod yn briod

## Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn meddwl y gall pobl ddysgu tra byddan nhw'n gweithio er mwyn cael profiad. Ond efallai na fyddan nhw'n cael eu talu.